Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Mehefin 13, 2017 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Gethin Williams (Is-gadeirydd), Elfed ap Gomer, Janet Edwards a John Hughes. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Geraint Rowlands (Cadeirydd)

Yn absenoldeb y Geraint Rowlands, cadeirwyd y cyfarfod gan Gethin Williams.

Rhoddwyd Rheolau Sefydlog o'r neilltu at y cyfarfod gan nad oedd cyngor llawn (9 aelod). Gyda 4 aelod yn bresennol sydd yn fwy na hanner yr aelodau (6 aelod ar hyn o bryd) parhawyd gyda'r cyfarfod.

2. Dewis Swyddogion

Swyddogion presennol:

Cadeirydd: Geraint Rowlands
Is Gadeirydd: Gethin Williams.

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Canolfan y Pentref Llanelltyd (1): Llinos Williams
Neuadd Bentref Bontddu (1): Janet Edwards
Llywodraethwyr Ysgol Llanelltyd (1): Carwyn Evans.
Llywodraethwyr Ysgol Bontddu (1): Gwenan Owen.
Materion Mynwent Llanelltyd (2): Geraint Rowlands a John Hughes.
Un Llais Cymru (2): Elfed ap Gomer, Gareth Ellis
Swyddog Ariannol Cyfrifol (i arolygu gweithrediadau ariannol): Elfed ap Gomer

Penderfynwyd codi'r mater yn cyfarfod nesaf.

Mae'r Clerc yn ymddiswyddo o'i swydd ar Gorffennaf 11, 2017.

Nid oedd gan Glerc Cyngor Cymuned Ganllwyd diddordeb yn swydd y Clerc.

3. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 9, 2017

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Mai 9, 2017

Eitem 2. Fe ddewiswyd Facebook yn unig i hysbysu'r swydd.

Eitem 6.ch. Dewiswyd yswriaint am 3 blynedd oherwydd bydd y pris yn cadw yr un fath ond fe all godi gyda newid yn nhrethi llywodraeth.

6. Materion Ariannol

a. Balans yn y banc ar 29 Ebrill, 2017: £9,345.29.

b. Bil (16//05/17) am £307.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd at gasglu gwastraff masnachol o Fynwent Llanelltyd o 1/4/2017 i 31/3/2018. Llynedd y gost oedd £292.00.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Siec (23/5/2017) am £85 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf. i ail osod beddfaen ar y diweddar Dilys Meredith.

ch. Balans yn y banc ar 29 Mai, 2017: £8,476.79.

d. Siec (2/6/2017) am £100 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf. i osod beddfaen ar y diweddar Alun Edwards.

dd. Bill (23/5/2017) am £31.20 oddi wrth G.W. Jones, Contractwr Amaethyddol, am dorri gwrych y Fynwent.

Penderfynwyd talu'r bil.

e. Archwiliwyd dogfennau y Cyngor gan Mr. J. D. Roberts, Archwiliwr Mewnol, ac anfonwyd y dogfennau ymlaen i BDO LLP, Archwilwyr Allanol, ar 5/6/2017.

f. Siec (8/6/2017) am £350 oddi wrth Glyn Rees & Son am gladdu gweddillion o'r Amlosgfa, Peggy Walker. (Mae'r tâl yn ddwbl oherwydd mae claddedigaeth ar fore dydd Sadwrn 10/6/2017).

ff. Bil (8/6/2017) am £90 oddi wrth Glyn Rees & Son i ail agor bedd i gladdu gweddillion Peggy Walker.

Penderfynwyd talu'r bil.

g. Sydd angen newid Prisiau a thaliadau'r fynwent?

Penderfynwyd codi'r mater yn cyfarfod nesaf.

7. Mynwent Llanelltyd

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Sydd angen newid y drefn i gael barn yr aelodau ar geisiadau cynllunio?

Penderfynwyd codi'r mater yn cyfarfod nesaf.

b. Llythyr (4/5/2017) yn rhoi gwybod bod yr Awdurdod yn cynnig 4 coeden afal i gymunedau lleol a helpu gyda'u plannu. Amgáu mae ffurflen i'w lenwi ac maent ei angen cyn diwedd Awst 2017.

Penderfynwyd codi'r mater yn cyfarfod nesaf.

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (Mai 2017) oddi wrth Un Llais Cymru. Maent angen gwybod enw'r cynghorydd bydd yn cynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Ardal. Mae le i ddau ond dim ond un bleidlais sydd gan bob Cyngor.

Penderfynwyd codi'r mater yn cyfarfod neasaf.

b. Llythyr (9/5/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am Gynhadledd Cynghorau Lleol Mwy a Gwobrau Arfer Blaengar Un Llais Cymru yn Hafod a Hendre, Maes Sioe Frenhinol Cymru ar Orffennol 5, 2017 am 9.30yb. Pris fesul cynrychiolydd yw £50.

c. Llythyr (8/5/2017) oddi wrth G.W.M. Ellis eisiau bod ar y Cyngor.

ch. Cafwyd gwybod (15/5/2017) gan Swyddog yn Penarlag mae'n iawn i Gareth Ellis a Llinos Williams fod ar y Cyngor ond gyda chefnogaeth y Cyngor. Hefyd, cafwyd rhybudd Hysbysiad o Gyfethol aelod i'r Cyngor.

Penderfynwyd bod Gareth Ellis a Llinos Williams ar y Cyngor.

Penderfynwyd hysbysu am 2 aelod i'r Cyngor. Bydd Janet Edwards yn ymddeol mis Awst.

d. Llythyr (12/5/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys 'Model Brotocol Lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned.

Penderfynwyd mabwysiadu'r Model a'i gynwys yn ein polisiau.

dd. Llythyr (16/05/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn holi os gennym ddiddordeb mewn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

Penderfynwyd codi'r mater yn cyfarfod neasaf.

e. Llythyr (18/5/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod i ni ddarparu cofnodion a phapurau eraill, i'r archwiliad allanol, yn yr iaith mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio.

f. Llythyr (23/5/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod cynhelir Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar Mehefin 21 am 7.00. Bydd y cyfarfod yn cynnwys Cyfarfod Blynyddol. Bydd Heddwas yn bresennol i sôn am droseddu yng nghefn gwald. Amgáu mae Agenda -Cyfarfod Blynyddol, Agenda – Cyfarfod Cyffredinol, a Chofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhalwyd yn Chwefror 2017.

Cytunodd Elfed ap Gomer bod yn bresennol yn y cyfarfod.

ff. Llythyr (22/5/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am waith bydd yn cael ei wneud:

1. Dec newydd ar Bont Hendre, Bontddu.
2. Torri gwair ar bob ffordd yn gymuned Llanelltyd.
3. Arwisgo Ffordd Hafod, Llanelltyd.

g. Llythyr (1/6/2017) oddi wrth Un Llais Cymru. Maent yn rhestru cyrsiau sydd ar gael ganddynt. Y cyrsiau lleol Cymraeg yw:

Cod ymddygiad (28/6/2017), Dealltwriaeth y Gyfraith (13/9/2017), Cyfarfod y Cyngor (18/10/2017). Cyrsiau yn Canolfan Hen Blas, Bala.

Gynefino i gynghorwyr newydd (21/6/2017), Cod ymddygiad (26/7/2017). Cyrsiau yn Llyfrgell Rhydd, Dolgellau.

Cost hyfforddiant yw £40 yr aelod. Cynhelir sesiwn am 6.30yh.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

Nid oedd adroddiad.

11. Materion Brys

a. O'r ymchwiliad gan BDO mae angen nodi yn y Cofnodion ein bod yn cytuno gydag ein polisiau, sef:

a. Cod Ymddygiad
b. Rheolau Sefydlog
c. Rheoliadau Cyllidol
ch. Polisi Iaith
d. Protocol

Penderfynwyd codi'r mater yn cyfarfod neasaf.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen archwilio draen sydd tu allan i fflatiau Hen Eglwys, ar gongl y maes parcio ar gyfer toiledau Bontddu. Mae'r draen wedi cau ac yn achosi dŵr rhedeg lawr y ffordd.